PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

# Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.15 ar 12 MEHEFIN 2024, yn y Brif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.**

| | |
|---|---|
| Aelodau â phleidlais: | Yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor; Dr Otar Akanyeti; Dr Stephen Atherton; Mr Tom Bates; Dr Hanna Binks; Mr Paul Croft; yr Athro Hazel Davey; Dr Sarah Davies; yr Athro Iain Donnison; yr Athro Andrew Evans; Dr Patrick Finney; Mr Jonathan Fry, Cadeirydd Cangen PA y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd); yr Athro Angela Hatton, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); yr Athro Mererid Hopwood; Dr Aloysius Igboekwu; yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Dr Ffion Jones; Dr Alex Mangold; yr Athro Louise Marshall; Dr Julie Mathias; Ms Jen Phipps; Dr Alexander Pitchford; yr Athro Phillipp Schofield; Miss Anna Simpkins, Swyddog Materion Academaidd UMAber; yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr); Mr Bayanda Vundamina, Llywydd Undeb y Myfyrwyr; Miss Elain Gwynedd, Llywydd UMCA. |
| Aelodau heb bleidlais: | Yr Athro Iain Barber; yr Athro Nigel Copner; yr Athro Simon Cox; yr Athro Nigel Holt; Dr Thomas Jansen; yr Athro Emyr Lewis; yr Athro Helen Roberts, Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil; Dr Anoush Simon; Dr Steve Thompson; Dr Lucy Trotter a'r Athro Catrin Webster. |
| Yn gweinyddu: | Mr Tim Davies, Pennaeth Gwasanaethau Gwybodaeth; Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Ian Munton, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Fyfyrwyr; Mr Daniel Taylor; Dr Gethin Rhys, Cofrestrydd Academaidd Dros Dro; Mr Will Parker, darpar Swyddog Materion Academaidd UMAber. |

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb i law oddi wrth Ms Jackie Sayce; Dr Kim Knowles; yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol).

## 41. CROESO

Croesawyd Daniel Taylor o IGG, yn gweinyddu yn rhan o'r Arolwg Llywodraethu allanol, a'r Athro Nigel Copner, Pennaeth Adran, y naill a'r llall heb bleidlais a'r ddau yn eu cyfarfod cyntaf o'r Senedd.

## 42. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

## 43. COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2024 (SEN2223-048).

PENDERFYNWYD

1. Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

2. Cofnodi ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth yr Athro Qiang Chen.

## 44. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN2324-050).

## 45. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad yr Is-Ganghellor (SEN2324-051)

NODWYD

1. Roedd tair prif adran i'r adroddiad: adroddiad amlygu; adroddiad cynllunio a denu myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu

2. Paratoadau'r gynhadledd Dysgu ac Addysgu a gynhelir ym mis Medi 2024.

3. Y gwaith sy'n mynd rhagddo ar y Prosiect Trawsnewid, a datblygiad Strategaeth newydd y Brifysgol trwy gyfrwng gweithdai ymgynghori â staff.

## 46. Y PWYLLGOR YMCHWIL AC ARLOESI

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan Lisa Fisher, Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil (SEN2324-052).

NODWYD

2. Y drafodaeth sy'n parhau ynglŷn â newidiadau i'r mathau o gontractau ymchwil.

## 47. Y BWRDD ACADEMAIDD

### 47.1 Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (SEN2324-053).

NODWYD

3. Y datganiad a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ynglŷn â Phrifysgol Aberystwyth, lle mae nifer yr achosion yn dal yn is na ffigurau cyfartalog y band.

4. Diweddariad i Ddatganiad y Canlyniadau Gradd, yn cynnwys data wedi'i ddiweddaru am 2022/23. Roedd cyfran y graddau anrhydedd da ar lefel debyg i'r hyn a welwyd cyn y pandemig.

5. Roedd drafft y Strategaeth Dysgu ac Addysgu wedi'i ddosbarthu er mwyn ei drafod.

6. Arolwg o reoliadau academaidd yng nghyswllt terfynau amser, er mwyn rhoi darlun clir o'r terfynau amser i gynlluniau gradd israddedig.

PENDERFYNWYD:

7. Cymeradwyo'r rheoliadau diwygiedig ynglŷn â therfynau amser. [**Gweithredu:** y Cofrestrydd Academaidd dros dro i ddiweddaru'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd.]

**47.2 Polisi Arfaethedig ar Addasrwydd i Sefyll Arholiadau**

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan Dr Gethin Rhys, Cofrestrydd Academaidd Dros Dro (SEN2324-053)

NODWYD

3. Y cynigion, i ddisodli'r drefn bresennol o ymdrin ag amgylchiadau arbennig a chyflwyno polisi 'Addas i Sefyll Arholiadau', a'r diweddariad mewn ymateb i adborth y Senedd.

4. Cynnig i ohirio polisi 'Addas i Sefyll Arholiadau' tan fis Medi 2025 er mwyn gallu datblygu systemau.

5. Byddai'r 'Drws Trugaredd' yn cael ei ddileu ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau Rhan Dau o fis Medi 2024, ac ar gyfer myfyrwyr ar gyrsiau uwchraddedig a ddysgir sy'n dechrau o fis Medi 2024.

6. Y cynnig i ddisodli'r polisi presennol ar gyfer estyniadau gwaith cwrs a chyflwyno proses awtomataidd, sy'n dileu'r angen i wneud penderfyniadau unigol a'r cyfyngiadau ar nifer a hyd yr estyniadau.

7. Yr heriau ymarferol sy'n gysylltiedig â rhai dulliau asesu, a'r posibilrwydd o gyfyngu pellach ar arholiadau ailsefyll yr haf, i ymdrin â phryderon am berfformiad myfyrwyr a llwyth gwaith marcio. Byddai'n rhaid i'r grŵp gweithredu ystyried y rhain.

PENDERFYNWYD

8. Cefnogi cyflwyno polisi 'Addas i Sefyll Arholiadau' o fis Medi 2025 a dileu'r 'Drws Trugaredd' i uwchraddedigion a myfyrwyr sy'n dechrau Rhan Dau o fis Medi 2024, yn amodol ar gael ystyriaeth pellach i adborth y Senedd gan y grŵp gweithredu, a chael cymeradwyaeth derfynol y Senedd cyn mis Medi 2024.

**47.3 Dyddiadau Tymor 2026-27**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (SEN2324-055)

NODWYD

1. Y dyddiadau arfaethedig, a fyddai'n dilyn patrwm blynyddoedd blaenorol.

PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo Dyddiadau Tymor 2026-27. [**GWEITHREDU:** y Gofrestrfa Academaidd i ddiweddaru'r Dyddiadau Tymor ar-lein.]

**47.4 Adroddiad Blynyddol UMAber i'r Senedd**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (SEN2324-056)

NODWYD

Ystyriaethau ac argymhellion yr adroddiad, a fyddai'n cael eu hystyried yn fanylach gan y Bwrdd Academaidd, gan gynnwys dulliau cynnal panelau Ymddygiad Academaidd Annerbyniol.

**48. BWRDD MARCHNATA A DENU & DERBYN MYFYRWYR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kylie Evans, Pennaeth Gweithrediadau Derbyn Myfyrwyr (SEN2324-057)

NODWYD

1. Y dadansoddiad sy'n mynd rhagddo ar y perfformiad o ran Ehangu Cyfranogiad.

2. Y bydd cyngor yn cael ei ddosbarthu i'r Cyfadrannau cyn hir ynglŷn â'r Clirio.

**49. FFRAMWAITH Y CYFADRANNAU**

**49.1 Adroddiad cynnydd gan Gyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran (SEN2324-058)

NODWYD

Yr adroddiad cynnydd y gwnaeth y Senedd gais amdano ynglŷn â gweithrediad yr Ysgol Ieithoedd a Llên yng Nghyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol.

Y canlyniadau cadarnhaol sydd wedi deillio hyd yma o sefydlu'r Ysgol ym mis Hydref 2023, a'r camau a gymerwyd i ddiogelu hunaniaethau'r adrannau, ac i hyrwyddo'r Gymraeg.

**49.2 Newid Fframwaith y Cyfadrannau**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor (SEN2324-059)

NODWYD

1. Y cynnig i symud o fframwaith tair Cyfadran i ddwy Gyfadran newydd, un yn fras i'r Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, a'r llall i'r Gwyddorau eraill.
2. Yr heriau ariannol sylweddol sy'n wynebu'r Brifysgol, yr angen i ystyried fframweithiau academaidd yn rhan o raglen drawsnewid, a'r nod o sicrhau mwy o gysondeb ac effeithlonrwydd.
3. Y trafodaethau adeiladol a gynhaliwyd rhwng yr Is-Ganghellor a chynrychiolwyr y Senedd.
4. Byddai'r penderfyniad terfynol i newid i fframwaith dwy Gyfadran yn cael ei gyfeirio i'r Cyngor, a byddai newidiadau i Ordinhad 21 ac enwi'r Cyfadrannau yn cael eu hystyried gan y Senedd ym mis Tachwedd 2024, i'w cymeradwyo wedi hynny gan y Cyngor.
5. Y cynnig i gyflwyno'r fframwaith newydd erbyn mis Ionawr 2025, a'r angen am gynllunio unrhyw newidiadau yn ofalus er mwyn ategu'r fframweithiau.

ARGYMHELLWYD

6. I'r Cyngor bod y Brifysgol yn gweithio tuag at fframwaith dwy Gyfadran erbyn mis Ionawr 2025. [GWEITHREDU: Ysgrifennydd y Brifysgol]

**50. CANGEN PRIFYSGOL ABERYSTWYTH Y COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Jonathan Fry, Cadeirydd y Gangen (SEN2324-060)

**51. GRANTIAU YMCHWIL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi) (SEN2324-061).

NODWYD

Grantiau Ymchwil a ddyfarnwyd ers cyfarfod diwethaf y Senedd.

**52. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU**

DERBYNIWYD: Cofnodion o'r pwyllgorau canlynol (SEN2324-062):

1. Y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi (28 Mai 2024)
2. Y Bwrdd Academaidd (5 Mehefin 2024)
3. Bwrdd Marchnata a Denu & Derbyn Myfyrwyr (29 Mai 2024)
4. Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol (4 Mawrth 2024)
5. Y Cyngor (12 Mawrth 2024 a 26 Ebrill 2024)

**53. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A MATERION YN Y DYFODOL**

Ffarwelio

Diolchodd y Senedd i'r Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor, a oedd yn bresennol yn ei gyfarfod olaf o'r Senedd, ac i Ms Anna Simpkins, Swyddog Materion Academaidd Undeb y Myfyrwyr, a oedd yn ei chyfarfod olaf hithau o'r Senedd.

Aelodau'r Senedd a enwebwyd ar gyfer y Cyngor

Byddai aelodau'r Senedd a fydd yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu henwebu cyn sesiwn 2024/25.

HGRh 4 Gorffennaf 2024